Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# Aelodau'r Cynulliad sy'n Gynghorwyr

*04/04/2012*

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 14 Mawrth, pan wnaethoch ofyn,

***c1: Faint o Aelodau, ar wahân i Peter Black, sy'n aelod o unrhyw un o'r 22 Awdurdod Unedol ac sydd HEFYD yn Aelod Cynulliad. Fedrwch chi ddweud pwy ydynt ar wahân i'r Aelod Rhanbarthol dros Orllewin De Cymru?***

***c2: Pa ddatganiadau'n ymwneud â busnes a thrafodion y Cynulliad sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith os bydd Aelod hefyd yn Gynghorydd ar unrhyw un o'r 22 Awdurdod Unedol ac a fedrwch ddweud pa DDATGANIADAU o'r fath a wnaed yn ystod y tymor presennol a dweud sut fath o ddatganiad personol/ariannol y mae angen ei wneud yn y cyswllt hwn?***

***c3 A yw'r tâl a gaiff Aelodau am eu gwaith fel Cynghorwyr yn cael ei ystyried yn fudd ariannol iddynt ac os byddant yn gwrthod y tâl hwnnw neu'n ei ddefnyddio at ddibenion plaid a ddylai hynny osod rhwymedigaeth benodol ar yr Aelodau neu beri iddynt fod yn agored ac yn dryloyw gyda'r Cynulliad at BOB/UNRHYW ddiben yn ymwneud â gwneud datganiad pan gaiff tâl o'r fath ei wrthod neu ei ddefnyddio fel arall?***

***c4 Pa fwlch neu ddiffyg yn y gyfraith sy'n caniatáu'r swyddogaethau deublyg hyn, a sut y gellid newid y cymhwyster i fod yn Aelod Cynulliad fel y byddai'n rhaid penderfynu bod naill ai'n Gynghorydd neu'n AC ond nid y ddau?***

***c5 A oes polisi yn awdurdodaethau eraill y DU sy'n ceisio ymdrin â'r broblem hon a, hyd y gwyddoch chi, a yw'r Cynulliad ei hun wedi cynnal unrhyw ymgynghoriad, ymholiad neu waith yng nghyswllt y sefyllfa sy'n codi pan fydd cynrychiolwyr y Cynulliad yn cael eu talu DDWYWAITH gan y sector cyhoeddus am wneud DWY swydd yn rhannau o'r un etholaeth?***

Mewn ymateb i'ch cwestiwn cyntaf, ar wahân i Peter Black, ar hyn o bryd mae 7 o Aelodau'r Cynulliad wedi cofrestru eu bod yn gweithio fel Cynghorwyr yn un o'r 22 Awdurdod Unedol yng Nghymru. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau, sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan y

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8215
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cynulliad. Y saith Aelod yw Janet Finch Saunders, Russell George, Mike Hedges, Mark Isherwood, William Powell, Aled Roberts a Lindsay Whittle .

I ateb cwestiynau 2 a 3, mae adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2006 linc yma yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog y Cynulliad gynnwys darpariaethau amrywiol i ddiogelu safonau uniondeb yng nghyswllt trafodion y Cynulliad. Mae'r rheolau'n ymwneud â chofrestru a datgan buddiannau ariannol a buddiannau eraill wedi'u gosod allan yn Rheol Sefydlog 2 yn y Rheolau Sefydlog, sydd i'w gweld yn llawn drwy ddilyn y linc isod http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-assembly-guidance.htm.

Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol ar wahân yn ymwneud ag Aelodau sydd hefyd yn Gynghorwyr. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r Aelod gofrestru ei waith fel Cynghorydd o dan y darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud ag unrhyw 'swydd' y caiff dâl am ei wneud. O dan Reol Sefydlog 2, rhaid i'r Aelodau gofrestru'n ffurfiol unrhyw gyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio aelodaeth o'r Cynulliad) y cânt dâl amdano, neu sy'n rhoi budd ariannol iddynt.
Mae'r rheolau'n ymwneud â datgan buddiannau yn nhrafodion y Cynulliad yn nodi'r canlynol:

*Rheolau Sefydlog 2.6 Yn yr amgylchiadau a bennir yn Rheol Sefydlog 2, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo, neu y gall fod yn disgwyl ei gael, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, unrhyw fuddiant ariannol sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, neu y gallant fod yn disgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy'n codi yn y trafodion hynny.*

*Rheolau Sefydlog 2.7 Rhaid i ddatganiad llafar o dan Reol Sefydlog 2.6 gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw fuddiant a bennir ym mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 os gallai penderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol.*

Felly, o dan ddarpariaethau Rheolau Sefydlog y Cynulliad, nid oes raid i Aelod wneud datganiad llafar oni bai bod penderfyniad penodol a wneir yn ystod trafodion y Cynulliad yn ymwneud â'i swydd fel Cynghorydd a bod posibilrwydd i'r penderfyniad hwnnw arwain at fwy o fantais ariannol uniongyrchol naill i'r Aelod neu i bartner neu blentyn dibynnol yr Aelod, nag i

unrhyw un arall y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt yn gyffredinol. Yn ystod tymor presenol y Cynulliad, ni wnaed unrhyw ddatganiadau gan Aelodau o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad.

O dan Reol Sefydlog 2, rhaid i'r Aelodau gofrestru'n ffurfiol unrhyw gyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio aelodaeth o'r Cynulliad) y cânt dâl amdano, neu sy'n rhoi budd ariannol iddynt. Nid oes raid i'r Aelodau ddatgan a ydynt wedi gwrthod eu lwfans (yn llawn neu'n rhannol) na sut y maent yn defnyddio'u lwfans. Wrth gofrestru buddiannau, dylai'r Aelodau nodi'r cyflogwr neu'r cwmni, natur y busnes, a nodi natur eu swydd yn y cwmni neu natur y gwasanaeth y mae'r cwmni'n talu iddynt am ei ddarparu. Yn y cyswllt hwn, mae'r holl Aelodau sydd wedi cofrestru eu bod yn Gynghorwyr wedi bodloni'r gofyniad hwn.

O ran cwestiwn 4, mae adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 linc yma yn cynnwys rhestr o'r rhai sydd wedi'u hanghymhwyso bod yn Aelod Cynulliad.

Mae'r rhestr yn cynnwys y rheini sydd wedi'u anghymhwyso rhag bod yn Aelodau o Senedd y DU o dan Ddeddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 ar gael yma (sy'n cynnwys barnwyr, gweision sifil, aelodau'r lluoedd arfog a'r heddlu, ac aelodau o ddeddfwrfeydd tramor nad ydynt yn perthyn i'r Gymanwlad); aelodau o staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae adran 16 hefyd yn anghymhwyso'r rhai sydd â swyddi a nodir mewn unrhyw Orchymyn a wnaed o dan adran 16(1)(b) rhag bod yn Aelodau Cynulliad. Ar hyn o bryd, y Gorchymyn perthnasol yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010 ar gael yma sy'n rhestru dros 100 o swyddi.

Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006, na Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010 yn rhestru aelodau o awdurdodau unedol (hy cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol) fel pobl sydd wedi'u hanghymhwyso, ond mae aelodau o awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru wedi'u hanghymhwyso o dan y Gorchymyn.

Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i ddiwygio adran 16 o'r Ddeddf honno drwy ychwanegu aelodau awdurdodau unedol at y rhestr o'r rhai sydd wedi'u hanghymhwyso'n uniongyrchol o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, gellid gwneud hynny drwy eu hychwanegu at y rhestr

o'r rhai sydd wedi'u hanghymhwyso o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010. Llywodraeth Cymru (nid y Cynulliad) sydd â'r pŵer i ddiwygio'r Gorchymyn ond byddai angen gosod unrhyw welliant a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru gerbron y Cynulliad, i'w gymeradwyo, cyn y byddai'r Gorchymyn yn dod i rym.

Mae darpariaethau tebyg i'r uchod yn berthnasol i Aelodau Senedd yr Alban hefyd, o dan delerau Deddf yr Alban 1998 linc yma
a Gorchymyn Senedd yr Alban (Anghymhwyso 2010 yma ac i Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon, o dan delerau Deddf Cynulliad Gogledd Iwerddon (Anghymhwyso) 1975. Fel y nodir uchod, Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 yma sy'n ymdrin ag anghymhwyso pobl rhag bod yn aelodau o Dŷ'r Cyffredin.

Ac eithrio'r uchod, nid oes gan y Cynulliad wybodaeth yn ymwneud â chwestiwn 5. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynigion i ychwanegu aelodau Awdurdodau Unedol at y rhestr o bobl sydd wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau Cynulliad ond, fel yr esboniwyd uchod, dim ond Llywodraeth Cymru fyddai'n gallu bwrw ymlaen â chynigion o'r fath.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm .
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych bryderon neu gŵyn ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn credu nad wyf wedi cymhwyso'r Cod yn briodol neu heb ddilyn y deddfau perthnasol, gallwch wneud cwyn ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd. Mae manylion egwyddorion cwynion y Cynulliad wedi'u gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar y Fewnrwyd yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Cysylltwch â mi oes hoffech gopi wedi'i argraffu.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**